CYNGOR CYMUNED
LLANSTEFFAN A LLANYBRI
COMMUNITY COUNCIL

ADRODDIAD CYNGHORYDD SIR
13eg RHAGFYR 2021

COUNTY COUNCILLOR'S REPORT
DECEMBER 13th 2021

YMDDIRIEDOLAETH GENEDLAETHOL - YMGYNGHORIAD:

Gobeithir cynnal Diwrnod Agored ychwanegol yn Fferm Parc yr Arglwydd ym mis Ionawr (os bydd rheoliadau Cofid yn caniatau). Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn ymdrin a'r materion fesul cam ac yn gobeithio adrodd cynnydd yn y Flwyddyn newydd.

NATIONAL TRUST - CONSULTATION:

It is hoped that a further Open Day will be held at Lord's Park Farm in January - Covid-restrictions permitting. The National Trust has adopted a phased approach and will hopefully have some progress to share in the New Year.

SENEDD CYMRU - YMGYNGHORIAD AR AIL-GARTREFI (DEDDFWRIAETH CYNLLUNIO):

Mae Senedd Cymru wedi lawnsio Ymgynghoriad ar Ddeddfwriaeth a Pholisi Cynllunio Ail-Gartrefi a Thai Gwyliau byr-dymor yng Nghymru. Mae'r Senedd am glywed barn y cyhoedd ar newidiadau i'r system rheolaeth datblygu i gynnig cymorth i awdurdodau cynllunio i reoli tai haf a thai gwyliau. Mae'r ymgynghoriad ar-lein ac anogir y cyhoedd i ymateb: https://llyw.cymru/deddfwriaeth-pholisi-cynllunio-ar-gyfer-ail-gartrefi-llety-gwyliau-tymor-byr

SENEDD CYMRU - CONSULTATION ON SECOND HOMES (PLANNING LEGISLATION):

Senedd Cymru has launched a consultation on Planning Legislation and Policy on Second Homes and Short-term Holiday Lets in Wales. It is seeking views on proposals to amend the development management system to help local planning authorities manage second homes and holiday lets. It is an online consultation and members of the public are encouraged to respond: https://gov.wales/planning-legislation-and-policy-second-homes-and-short-term-holiday-lets

COMISIWN DEMOCRATIAETH LEOL A FFINIAU CYMRU:

Yn dilyn y penderfyniad i uno wardiau sirol Llansteffan a San Clêr, cyflwynais gwyn swyddogol yn erbyn Rebecca Evans AS (Gweinidog dros Lywodraeth Leol) ynglyn â'r penderfyniad penodol, a Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ynglyn â'r gwallau yn ei Argymhellion Terfynnol. Mae'r Gweinidog a'r Comisiwn wedi gwrthod y cwynion. Anfonais y cwyn at Sophie Howe, Comisiynnydd Cenedlaethau'r Dyfodol, sydd wedi darparu gwybodaeth cefnogol. Ar hyn o bryd rwy'n paratoi cwyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Rwy'n hapus i ddarparu dogfennau i aelodau/aelodau'r cyhoedd os hoffech archwilio'r cynnwys.

LOCAL DEMOCRACY AND BOUNDARY COMMISSION WALES:

Following the decision to unite Llansteffan county ward with St. Clears, I made a formal complaint against Rebecca Evans MS (Minister for Local Government) regarding the actual decision and the Local Democracy and Boundary Commission for Wales regarding the errors and omissions in its Final Recommendations. Both the Minister and the Boundaries Commission have rejected the complaint. I forwarded the complaint to Sophie Howe, the Future Generations Commissioner, who has provided information in support. I am currently preparing a complaint to the Public Services Ombudsman for Wales. I am happy to forward documents to members/members of the public who would like to examine its content.

CYLLIDEB CYNGOR SIR 2022/23:

Byddaf yn cyfrannu at Seminarau Cyllid trwy wythnos y 17eg o Ionawr. Os ydych yn teimlo'n grys dros unrhyw wasanaethau lleol neu'r modd maent yn cael eu delifro, cysylltwch gyda mi fel y gallaf leisio'ch barn cyn y 17eg. Gwnaf fy ngorau i warchod y gwasanaethau sy'n bwysig i chi yn yr amser sydd ohoni.

COUNTY COUNCIL BUDGETS 2022/23:

I will be participating in Budget Seminars throughout the week of the 17th January. If you feel strongly about any local services or their delivery please contact me to voice your concerns prior to the week of the 17th. I will do my best to protect services you feel are a priority at this difficult time.

MATERION SBWRIEL YN FERRY POINT:

Rwy'n gweithio gyda thrigolion Ferry Lane a Ferry Point a swyddogion CSC i fynd i'r afael â materion casglu sbwriel a thipio yn yr ardal hon.

FERRY POINT REFUSE ISSUES:

I am working with residents of Ferry Lane and Ferry Point and CCC officers to address issues of refuse collection and fly-tipping in the area.

CAE CARRIERS:

Cyn hir byddaf yn cwrdd â Swyddog yr Amgylchedd - Cynnal a Chadw Eiddo i drafod trwsio'r ffens rhwng Cae Carriers a Lôn Carriers a materion eraill yn y parth.

CARRIERS FIELD:

I will shortly be meeting with the CCC Environment Officer to address repairs to the fence at Carriers Field/Carriers Lane and other issues in the vicinity.

URDD GOBAITH CYMRU - EISTEDDFOD 2023:

Mae'r Urdd wedi cyhoddi eu bod yn bwriadu symud ymlaen gyda chynlluniau ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Sir Gâr 2023. Mae gyda Pwyllgor Apêl yr Urdd darged o £4,000 i'n ward ni, a bydd gweigareddau codi arian yn ail-gychwyn yn y Flwyddyn newydd os bydd rheoliadau Cofid yn caniatau.

URDD GOBAITH CYMRU - EISTEDDFOD 2023:

Yr Urdd has announced that it plans to continue making arrangements for the 2023 Urdd Eisteddfod in Carmarthenshire. The Urdd Appeal Committee has a £4,000 target for our ward, and fundraising events/activities will re-start in the New Year - Covid-regulations permitting.

HYFFORDDIANT:

Mynychais Sesiwn Briffio/Seminar ar fonitro'r Adran Gynllunio.
Mynychais dwy sesiwn Hyfforddiant Llywodraethwyr fel llywodraethwr Ffederasiwn Ysgolion Bancyfelin, Llansteffan a Llangain.

TRAINING:

I have attended a Briefing/Training seminar on the monitoring of the Planning Department.
I have attended two Governors' Training Sessions as a governor of the Federation of Bancyfelin, Llansteffan and Llangain schools.

YSTAFELL NEWYDDION Y SIR:

Ewch i Ystafell Newyddion Cyngor Sir Gâr am y newyddion diweddaraf yn ein hardal:
https://newyddion.sirgar.llyw.cymru/

COUNTY NEWSROOM:

Please visit the Carmarthenshire County Council Newsroom for all the latest local news:
https://newsroom.carmarthenshire.gov.wales/